WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2017

Buddsoddi yn y Gymraeg

Diolch am eich neges e-bost dyddiedig 22 Ionawr 2017 lle y gwnaethoch ofyn p'un a yw'r Swyddfa Archwilio wedi cynnal 'asesiad llawn o'r strategaeth buddsoddi yn y Gymraeg a pha effaith y mae wedi'i chael'.

Yn anffodus, nid wyf yn glir ynghylch ystyr 'strategaeth buddsoddi yn y Gymraeg'. Os ydych yn cyfeirio at strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru (fel y'i nodir yn Iaith fyw: iaith byw – strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017), neu at fuddsoddiad cyffredinol cyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yna gallaf ddatgan nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru na Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad o'r fath. Fodd bynnag, os ydych yn cyfeirio at rywbeth arall, rhowch wybod.

Yn gywir,